



Kier Construction Western & Wales

# Newport East Health & Wellbeing Centre

ISSUE 01



## Welcome to the first edition of the Newport East Health & Wellbeing Centre newsletter from Kier Construction, Western and Wales.

### Project Overview

Aneurin Bevan University Health Board are planning to build a new integrated Health and Wellbeing Centre in Newport East. The new Health and Wellbeing Centre will replace the existing health centres, Park and Ringland surgeries and provide other services such as a community dentist, district nursing and multi/interim rooms.

### COVID 19 – Management Strategy

Our teams across the Kier Group work tirelessly to deliver vital infrastructure and services to communities across the UK. The health, safety and wellbeing of our people is our number one priority. We continue to review all of our sites on a regular basis to ensure that we are operating in a way that continues to comply with the Construction Leadership Council's site operating procedures. Where we are unable to comply, operations have been stopped.

### Outline Business Case Approval

Aneurin Bevan University Health Board are pleased to announce the approval of the Outline Business Case for the Newport East Health & Wellbeing Centre development. The Full Business Case will be submitted to the Welsh Government in November 2021. On approval of the Full Business Case pre construction works is estimated to commence in February 2022, with the main works starting November 2022, with completion expected during the Summer of 2024.

The aim of the centre is to:

1. Ensure healthcare services are provided from high quality, fit for purpose buildings
2. Bring healthcare professionals, third sector and other providers under one roof to ensure a coordinated approach to health and wellbeing.

Aneurin Bevan University Health Board, together with Newport City Council and our third sector partners, the Health and

Wellbeing Centre will form part of a vibrant community hub which will be available to Newport East residents. Services available will include:

- GP Services
- Learning Disability Services
- Dental Services
- Memory Assessment Clinics
- Sexual Health Services
- Audiology
- Flying Start
- Health Visitors
- Dieticians
- District Nurses
- Speech and Language Therapy Services
- Wellbeing Support
- Podiatry Services
- Substance Misuse Services
- Diabetic Retinopathy
- Mental Health
- Abdominal Aortic Aneurysm Screening

Available in community hub next door:

- Citizens Advice Bureau
- Library Services and Events
- Space for Recreation and Leisure
- Adult learning classes
- Support for young people aged 11-25

In addition to medical services, the community hub will bring people together to support wellbeing, reduce loneliness and promote independent living, all in a welcoming environment.

### Community Engagement

During our time on site at Newport East Health & Wellbeing Centre we will engage with the community as well as local educational establishments utilising engagement officers at the hub co-designing the new Health and Wellbeing Centre with the communities it will serve. These include internal art work, art work to external hoarding, meet the buyer events, workshops with local schools and residents for the communities it will serve, including workshops with a renowned Welsh Artist.

If you would like to get in touch regarding an engagement opportunity please contact our Community Benefits Coordinator, Jess O'Donnell on [Jessica.odonnell@kier.co.uk](mailto:Jessica.odonnell@kier.co.uk)

We will be running a Public Exhibition Event which will be confirmed at a later date. This event will provide an opportunity for the general public to find out more about the project and ask any questions.

### Keeping In Touch

If you would like to be involved and kept up-to-date with this exciting new Health and Wellbeing Centre in Newport East, please send your name, address and e-mail contact details to [ABB.Newportlocalityfeedback@wales.nhs.uk](mailto:ABB.Newportlocalityfeedback@wales.nhs.uk)

### Health & Safety

*"Construction sites can be dangerous. At Kier Construction we endeavour to undertake all our activities with particular regard to health and safety. This not only relates to our own people working on our sites, but also to the public and users around our site. For this reason, please ensure that people do not enter the site itself"*

..... Project Manager.

### Key Milestone Dates

- Proposed construction start – Feb 2022
- New MUGA construction – Feb-May 2022
- Decant Ringland Health Centre into temporary accommodation – August 2022
- Demolition of existing Ringland Health Centre – October 2022
- Construction of Newport East Health and Wellbeing Centre- December 2022
- Project completion – May 2024

*\*These are estimated dates subject to planning permission*





Kier Construction Cymru a'r Gorllewin

## Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd

RHIFYN 01



### Croeso i newyddlen gyntaf Kier Construction Cymru a'r Gorllewin ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd.

#### Trosolwg o'r Prosiect

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn bwriadu adeiladu Canolfan Iechyd a Lles integredig newydd yn Nwyrain Casnewydd. Bydd y Ganolfan Iechyd a Lles newydd yn cymryd lle'r canolfannau iechyd cyfredol, meddygfeydd y Parc a Ringland, ac yn darparu gwasanaethau eraill fel deintyddfa gymunedol, nyrsys ardal ac ystafelloedd amlbwrpas/interim.

#### COVID 19 – Ein Strategaeth Reoli

Mae ein timau ar draws Grŵp Kier yn gweithio'n ddiflino i ddarparu seilwaith a gwasanaethau hanfodol ar gyfer cymunedau ar draws y DU. Iechyd, diogelwch a lles ein pobl yw ein blaenoriaeth bennaf. Rydym ni'n parhau i adolygu ein holl safleoedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu mewn ffordd sy'n dal i gydymffurfio â gweithdrefnau gweithredu safleoedd y Cynghor Arweinyddiaeth Adeiladu. Lle na allwn gydymffurfio, rydym ni wedi atal ein gwaith.

#### Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn hapus i gyhoeddi y cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd.

Caiff yr Achos Busnes Cyflawn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021. Pan fydd yr Achos Busnes Cyflawn wedi cael ei gymeradwyo, disgwylir i'r gwaith paratoi ar gyfer y prosiect adeiladu ddechrau ym mis Chwefror 2022 gyda'r gwaith adeiladu'n dechrau go iawn ym mis Tachwedd 2022. Y dyddiad cwblhau disgwyliedig yw haf 2024. Nod y ganolfan yw:

1. Sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn adeiladau o safon uchel, sy'n addas at eu pwrpas
2. Dod â gweithwyr gofal iechyd, y trydydd sector a darparwyr eraill o dan yr un to er mwyn sicrhau dull gweithredu cydlynol o ran iechyd a lles.

Gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin

Bevan, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd a'n partneriaid yn y trydydd sector, bydd y Ganolfan Iechyd a Lles yn rhan o hyb cymunedol bywiog a fydd ar gael i drigolion Dwyrain Casnewydd.

Bydd y gwasanaethau a fydd ar gael yn cynnwys:

- Gwasanaethau Ymarferydd Cyffredinol
- Gwasanaethau Anabledau Dysgu
- Gwasanaethau Deintyddol
- Clinigau Aseu Cof
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol
- Awdioleg
- Dechrau'n Deg
- Ymwelwyr Iechyd
- Dietegwy
- Nyrsys Ardal
- Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith
- Cymorth Lles
- Gwasanaethau Podiatreg
- Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau
- Retinopathi Diabetig
- Iechyd Meddwl
- Sgrinio Ymlediad Aortig yn yr Abdomen

Yn yr hyb cymunedol drws nesaf bydd:

- Canolfan Cyngor Ar Bopeth
- Gwasanaethau Llyfrgell a Digwyddiadau
- Gofod Hamdden
- Dosbarthiadau addysg i oedolion
- Cymorth i bobl ifanc 11-25 oed

Yn ogystal â gwasanaethau meddygol, bydd yr hyb cymunedol yn tynnu pobl ynghyd i hybu lles, lleihau unigrwydd a hyrwyddo ffyrdd annibynnol o fyw, oll mewn amgylchedd croesawgar.

#### Cysylltu â'r Gymuned

Wrth weithio ar safle Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd, byddwn ni'n cysylltu'r gymuned a sefydliadau addysg lleol gan ddefnyddio swyddogion cysylltu'r hyb. Y nod yw dylunio'r Ganolfan Iechyd a Lles newydd ar y cyd â'r cymunedau y bydd yn eu gwasanaethu. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith creu celf y tu fewn i'r adeilad a gwaith celf ar gyfer y byrddau palis allanol, cynnal digwyddiadau cwrdd â'r prynwr a gweithdai gydag ysgolion a thrigolion y cymunedau lleol,

gan gynnwys gweithdai gydag Artist Cymreig blaenllaw.

Os hoffech chi drafod cyfle i weithio gyda ni, cysylltwch â'n Cydlynnydd Manteision i'r Gymuned, Jess O'Donnell yn Jessica.odonnell@kier.co.uk.

Byddwn ni'n cynnal Achlysur Arddangos i'r Cyhoedd a gaiff ei gadarnhau maes o law. Bydd yr achlysur hwn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd glywed rhagor am y prosiect a chodi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

#### Cadw mewn Cysylltiad

Os hoffech chi chwarae rhan a chael diweddariadau cyson am y Ganolfan Iechyd a Lles newydd cyffrous yma yn Nwyrain Casnewydd, anfonwch eich enw, cyfeiriad a'ch cyfeiriad e-bost at ABB. Newportlocalityfeedback@wales.nhs.uk

#### Iechyd a Diogelwch

*"Mae safleoedd adeiladu'n gallu bod yn beryglus. Yn Kier Construction, rydym ni'n gwneud ein gorau glas i gyflawni ein holl weithgareddau â ffocws arbennig ar iechyd a diogelwch. Nid rhywbeth i'n pobl ein hunain sy'n gweithio ar ein safleoedd yn unig mo hyn, ond rhywbeth i'r cyhoedd a defnyddwyr o amgylch ein safleoedd hefyd. Am y rheswm hwn, sicrhewch nad oes neb yn mynd i'r safle gwaith ei hun"*

..... Rheolwr y Prosiect

#### Cerrig Milltir Allweddol

- Dechrau'r gwaith adeiladu – Chwe 2022
- Adeiladu'r MUGA newydd – Chwe-Mai 2022
- Symud Canolfan Iechyd Ringland i adeilad dros dro – Awst 2022
- Dymchwel Canolfan Iechyd Ringland – Hydref 2022
- Adeiladu Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd – Rhagfyr 2022
- Cwblhau'r prosiect – Mai 2024

\*Amcangyfrif yw'r dyddiadau hyn yn amodol ar ganiatâd cynllunio

